11.2.21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gallai ddechrau wrth ddiolch i bawb am eich cefnogaeth ers dechrau'r tymor a'r brwdfrydedd a chreadigrwydd rydych wedi dangos wrth fynd i'r afael â'r dysgu o bell. Does dim amheuaeth bod y cyfnod yma'n parhau i fod yn un heriol i bawb. Hoffwn ddiolch i'r holl staff sydd wedi gweithio mor galed i baratoi ystod gyfoethog o brofiadau dysgu rhithiol i'r holl ddisgyblion a'u cefnogi mewn amryw o ffyrdd boed trwy e-bost, dros y ffôn neu yn ystod y sesiynau byw. Diolch hefyd i'r staff sy'n gofalu am y plant hynny sy'n mynychu'r ddarpariaeth gofal plant.

**SICRHEWCH EICH BOD WEDI DARLLEN YR WYBODAETH HON YN OFALUS**

Ymhellach i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y 5ed o Chwefror, edrychwn ymlaen at groesawu disgyblion y **Cyfnod Sylfaen (Meithrin i Blwyddyn 2) yn unig** yn ôl ar **ddydd Mercher, 24ain o Chwefror 2021.**

*Plant newydd y feithrin: Byddwn yn croesawu ein plant **newydd** i'r Feithrin ar ddydd Llun, 1af MAWRTH 2021 a gallant fynychu bob dydd wedi hynny. Cyfeiriwch at yr ohebiaeth a anfonwyd yn flaenorol i gael manylion am amseroedd sesiynau, trefniadau gollwng a chasglu ac ati.

Bydd dysgu o bell yn dod i ben i blant y Cyfnod Sylfaen ar ddydd Mawrth, 23ain o Chwefror. Ni fydd sesiwn Googlemeet yr wythnos honno ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan y byddant yn dychwelyd i'r ysgol.

**Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i ddysgu o bell am y tro oni bai eu bod yn gymwys i le yn y ddarpariaeth gofal plant ac wedi bod yn ei fynychu eisoes. Ni fydd y ddarpariaeth gofal plant yn gweithredu yn ystod hanner tymor a bydd yn cychwyn eto ddydd Llun 22ain Chwefror.**

GWYBODAETH BWYSIG I RIENI/GWARCHEIDWAID DISGYBLION Y CYFNOD SYLFAEN:

* Nodwch fod ein gallu i ddychwelyd yn raddol yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ond yn bennaf ar lefelau staffio digonol. Sicrhewch eich bod yn cadw i fyny â'r holl ohebiaeth a anfonir trwy ein sianeli arferol - Schoop, Gwefan yr Ysgol a Twitter a bod eich manylion cyswllt yn gyfredol.

| GOLLWNG YN Y BORE | CASGLU YN Y PRYNHAWN |
|---|---|
| Gall eich plentyn gyrraedd unrhyw bryd rhwng 8:45 a 9:10. | **AMSEROEDD CASGLU**<br>Os oes gyda chi mwy nag un plentyn yn y Cyfnod Sylfaen neu mae plentyn hŷn yn y ddarpariaeth gofal plant, dylid eu casglu am 3:05yp<br>Os taw dim ond un plentyn sydd gyda chi yn y Cyfnod Sylfaen, dylid ei gasglu am 3:15yp<br>**MAN CASGLU**<br>O flaen yr ysgol ac yn unol â threfniadau y tymor diwethaf. |

- Bydd yr un system un ffordd yn gweithredu a rhaid i hwn gael ei dilyn drwy'r amser.
- Peidiwch ag ymgynnull / ciwio wrth gatiau'r ysgol.
- Cadwch bellter o 2m o leiaf rhwng teuluoedd wrth ollwng neu gasglu eich plant.
- Bydd yr holl ddisgyblion, **heblaw am blant Meithrin y bore a'u chwiorydd / brodyr**, yn dod mewn i'r ysgol trwy'r prif gatiau, yr un fath â thymor diwethaf.

- Dim ond **un** rhiant / gwarchodwr gall ddod â'i blentyn / plant ar dir yr ysgol er mwyn gollwng neu gasglu'r plentyn.

**TRAFNIDIAETH YSGOL**

Bydd trafnidiaeth ysgol yn weithredol o'r 24ain Chwefror.

**CINIO / BYRBRYD YSGOL**

Bydd angen i bob riant/gwarcheidwad ddarparu pecyn cinio i'w plentyn. **Ni fydd** cinio ysgol yn cael ei weini. Ni fydd stondin ffrwyth yn ystod amser egwyl chwaith.

**CLWB PLANT Y TRI ARTH**

**Ni fydd** Clwb Plant y Tri Arth yn weithredol am y tro.

**GWISG YSGOL**

Dylai'r disgyblion wisgo gwisg ysgol, ar wahân i ddiwrnodau pan mae gwersi Addysg Gorfforol gyda nhw. Er mwyn osgoi cyswllt agos diangen rhwng staff a disgyblion, rydym yn cynghori eich bod yn gwisgo'ch plant mewn trowsus math 'joggers' a fydd yn eu galluogi i wisgo'n annibynnol. Dylid osgoi teits.

**PRYDLONDEB / MYNEDIAD I SAFLE'R YSGOL**

Sicrhewch bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9:10 a'i fod yn cael ei gasglu ar yr amser cywir. Ni fydd hawl gyda rhieni / gwarchodwyr i gael mynediad i'r ysgol felly bydd angen cysylltu gyda'r ysgol trwy alwad ffôn neu drwy e-bost os ydych am siarad gydag aelod o staff.

**EITEMAU O ADRE'**

Yr unig adnoddau fydd angen ar ddisgyblion yw byrbryd, diod, pecyn cinio a dylid gwisgo eu dillad Addysg Gorfforol ar y diwrnodau maent yn derbyn sesiynau Addysg Gorfforol. Gofynnwn yn garedig nad yw'ch plentyn yn dod â'i lyfrau gwaith cartref na llyfrau darllen i'r ysgol. Byddwn yn eich hysbysu pan fyddwn yn gallu eu derbyn ac edrychwn ymlaen at weld yr holl waith y maent wedi'i gwblhau.

**GWISGO MASGIAU GAN DDISGYBLION**

Ni argymhellir gwisgo masgiau wyneb ar gyfer plant ysgol gynradd. Ni fydd unrhyw ddisgyblion yn cael eu hatal rhag gwisgo un. Mae hwn yn fater o ddewis rhieni. Rhiant / gwarcheidwad y disgybl sy'n gyfrifol am ddarparu masg wyneb priodol. Os yw disgybl yn gwisgo un, rhaid iddo ei storio mewn bag wedi'i selio. Cyfrifoldeb y rhiant / gwarcheidwad yw sicrhau bod gan eu plentyn fag wedi'i selio. Rhaid golchi neu lanhau dwylo cyn rhoi masg arno ac ar ôl ei dynnu. Rhaid golchi a newid masgiau y gellir eu hailddefnyddio bob dydd.

**GWISGO MASGIAU GAN STAFF**

Mewn ymateb i'r canllawiau diweddaraf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd staff nawr yn gwisgo masgiau yn yr ystafelloedd dosbarth. Bydd hwn yn brofiad anghyfarwydd i'ch plentyn, a byddem yn ddiolchgar pe gallech drafod hyn gyda nhw ymlaen llaw.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu ein disgyblion ieuangaf yn ôl.

*Yn gywir,*

*Miss Evans a staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân*

11.2.21

Dear Parent / Guardian,

I'd like to start by thanking everyone for your support since the beginning of the term and the enthusiasm and creativity you have shown in tackling distance learning. There is no doubt that this is still a challenging time for everyone. I would like to thank all the staff who have worked so hard to prepare a range of rich virtual learning experiences for all pupils and for supporting them in a variety of ways whether by email, telephone or the live sessions. Thanks also to the staff who care for those children who attend the childcare provision.

**PLEASE ENSURE THAT YOU READ THE FOLLOWING INFORMATION CAREFULLY**

Further to the Welsh Government's announcement on the 5th February, we look forward to welcoming our **Foundation Phase (Nursery to Year 2)** pupils **only** back on **Wednesday, 24th of February 2021.**

*New nursery children: We will welcome our new starters to the Nursery on MONDAY, 1st MARCH 2021 and they can attend every day thereafter. Please refer to the correspondence sent previously for details on session times, drop off and collection arrangements etc.

Distance learning will cease for our Foundation Phase pupils on Tuesday, 23rd February. There will be no Googlemeet session that week for the Foundation Phase as they will be returning to school.

**Key Stage 2 pupils will continue their distance learning for the time being unless they are eligible for, and have already been attending, a place in our childcare provision. The childcare provision will not operate during half term and will commence again on Monday 22nd February.**

IMPORTANT INFORMATION FOR PARENTS / GUARDIANS OF FOUNDATION PHASE PUPILS:

*Please note that our ability to fulfil this phased return is dependant on many factors but primarily on adequate staffing levels. Please ensure that you keep up with all correspondence sent via our usual channels – Schoop, the School Website and Twitter and that your contact details are up to date.

| MORNING DROP-OFF | AFTERNOON COLLECTION |
|---|---|
| Your child can arrive at the school between 8:45 and 9:10. | **COLLECTION TIMES**<br>If you have more than one child in the Foundation Phase or your child has an older sibling in the childcare provision, you should collect your children at 3:05pm<br>If you only have one child in the Foundation Phase, you should collect them at 3:15pm.<br>**COLLECTION POINT**<br>In front of the school as per last term. |

- The same one-way system will operate, and this must be followed at all times.
- Please do not congregate/queue by the school gates.
- Please always maintain a distance of at least 2m between families when dropping off or collecting your children.
- All pupils, except the morning Nursery children and their sisters / brothers, enter the school through the main gates, the same as last term.
- Only **one** parent / guardian can bring their child (ren) into the school grounds to drop off or pick up the child.

## SCHOOL TRANSPORT

School transport will be operational from the 24th February.

## SCHOOL DINNERS/SNACKS

Every parent / guardian will need to provide their child with a packed lunch. School lunches will not be served. The Fruit Tuck shop will not be operating at present.

## CLWB PLANT Y TRI ARTH

Clwb Plant y Tri Arth will **NOT** be operational for the time being.

## SCHOOL UNIFORM

Pupils should wear school uniform, apart from the days they have their P.E lessons. To avoid unnecessary close contact between staff and pupils, we advise that you dress your child in a 'jogger' type trouser which will enable them to dress independently. Tights should be avoided.

## PUNCTUALITY/ACCESS TO SITE

Please ensure that your child arrives in school by 9:10am and is collected at the correct time. Parents/Guardians will not have access to the school building and will need to contact the school office by telephone or e-mail if they need to speak to a member of staff.

## ITEMS FROM HOME

The only resources pupils will need are a snack, a drink, a packed lunch and their PE clothes should be worn on the days they receive PE sessions. We kindly ask that your child does not bring their home learning workbooks or reading books in to school. We will inform you when we are able to accept these and look forward to seeing all the work they have completed.

## WEARING OF MASKS BY PUPILS

Face masks are not recommended for primary school aged children. No pupils will be stopped from wearing a face mask. This is a matter of parental choice. Responsibility for the provision of an appropriate face mask lies with the parent / carer of the pupil. If a pupil wears a face mask, they must store it in a sealed bag. It is the parent / carer's responsibility to ensure that their child has a sealed bag. Hands must be washed or sanitised before putting on a face mask and after removing it. Reusable masks must be washed and changed daily.

## WEARING OF MASKS BY STAFF

In response to the most recent operational guidance received from the Welsh Government, staff will now be wearing face masks in the classrooms. This will be an unfamiliar experience for your child, and we would be grateful if you could discuss this with them beforehand.

As always, please contact us if you have any queries or concerns. We look forward to welcoming our younger pupils back.

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân*